

(Parhad o'r dudalen flaen)

yn y drasiedi mae'n debyg fod y cwbl wedi cael ei argraffu'n ddwfn ar ei feddwl. Fe gafodd hefyd ddigon o amser i bwysu a mesur yr holl beth ac nid yw'n syndod mai penderfynu ymatal rhag manylu wnaeth o. 'Roedd gan y ficer ei glwyfau ei hun.

Ond am bwy arall yn neilltuol tybed oedd y ficer yn meddwl? Am deulu'r ferch? 'Roedd ei thad a'i mam wedi gorfod dioddef am gyfnod hir gyhuddiadau llym gan unigolion, ac yn arbennig gan y wasg Seisnig, mai twyll oedd yr honiadau ganddynt fod eu merch yn medru byw heb gael ymborth. Pa un a oeddent yn haeddu'r gwaradwydd bentyrwyd ar eu pennau nid oes modd dweud yn bendant erbyn hyn oblegid collwyd y cyfle i holi pob enaid byw, yn enwedig preswylwyr y ffermdy, oedd rywfodd yn gysylltiedig â'r achos. Nid oedd twyll yn rhan o lythyren y cyhuddiad yn eu herbyn ond ar hyd yr amser 'roedd rhagfarn yn hofran dros weithrediadau'r llysoedd fel y barcut sydd mor gartrefol yn yr ardal. Tynged y rhieni oedd gorfod wynebu prawf yn y Frawdlys am ddynladdiad ac yno fe'u cafwyd yn euog a'u deddfrydu i dymor o garchar. Tybed a fyddai barnwr cyfoes wedi'i rhyddhau am nad oedd ganddynt obaith o gael gwrandawriad teg?

Prif gymeriadau y ddrama fawr, wrth gwrs, oedd y ferch a'i rhieni ond mae angen ystyried y rhannau chwaraewyd gan ddau arall oblegid pe baent wedi ymyrryd mewn ffordd wahanol, neu hyd yn oed wedi peidio ymyrryd o gwbl, mae'n debyg na fyddid wedi gorfod diodde'r diwedd glo trist. Nid am y teulu'n unig oedd Evan Jones yn debyg o fod yn meddwl.

Trydedd merch Evan a Hannah Jacob, Llethr-neuadd, fferm ychydig dros filltir a hanner o bentref New Inn (ond yn nes o lawer ato wrth ddefnyddio llwybr troed ger yr afon) oedd Sarah. Ym mis Chwefror 1867, a hithau eto heb gyrraedd ei deng mlwydd oed, bu mewn llewyg am fis cyfan a phan ddadebrodd ni chymerodd ond ychydig o fwyd. Erbyn mis Hydref, ac am dros ddwy flynedd wedyn, honnid nad oedd yn bwyta nac yfed dim.

Mater teuluol yn unig oedd hynny i ddechrau, fel y gellid disgwyl, ond yng nghwrs amser fe ddwy i gymdogaeth ar led i wybod. Yng Ngorffennaf 1868 daeth i sylw'r wlad pan gyfeiriwyd at y ferch mewn dau newyddiadur Cymreig, *Cronici Cymru* (Bangor) a'r *Dydd* (Dolgellau). Yn Ionawr 1869 bu sôn amdani yn *Y Tyst Cymreig*, ac yn fuan wedyn dechreuodd *Y Gwladgarwr* gyhoeddi adroddiadau. Ond *Seren Cymru* oedd y mwyaf hael gyda'i

newyddion ac ynddo hawliodd gohebydd, Myrddin Ddu (Herbert Jones) o Landysul, freintiau arbennig wrth alw yn y tŷ i weld Sarah Jacob a thrwy dderbyn newyddion amdani o enau ei thad. Nid darllenwyr y *Seren* oedd yr unig rai i fwynhau'r hanes; yn ôl Myrddin Ddu 'roedd Sarah hefyd yn cael pleser ac yn dymuno iddo ddiolch i bawb am feddwl amdani.

'Roedd sefyllfa'r eneth, meddai Myrddin Ddu, uwchlaw dimadaeth dyn. Credai bod ryw allu goruwchnaturiol yn ei chynnal 'ac yn gohirio ysgariad enaid a chorff oddiwrth eu gilydd'; a gwahoddodd 'unrhyw anghredadun i alw i weld mor anolrheinadwy yw ei ffyrdd Ef. Barnai'r Parch John Davies, Llandys, mai 'ymweliad uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd' oedd yno, ac i J. Richards, Caerfyrddin, 'rhyfeddod mwyaf yr oes' oedd Sarah Jacob. Detholiad yn unig o'r math o sylwadau a lefarwyd gan ymwelwyr yw'r rheini.

Cyfyngwyd y sylw i'r Wasg Gymreig i ddechrau ond yn y mis bach, 1869, ymledodd hanes yr ymprydio dros wledydd Prydain a draw dros y dŵr i'r Unol Daleithiau. Sbardunwyd y diddordeb gan lythyr arbennig yn rhifyn 19 Chwefror 1869 o un o bapurau Seisnig tref Caerfyrddin, *The Welshman*. Awdur y llythyr hwnnw oedd y Parch Evan Jones, a'i ddioben oedd i dynnu sylw at Sarah Jacob gan ddweud yn bendant nad oedd y ferch wedi cymryd y gronyn lleiaf o unrhyw fath o fwyd ers un mis ar bymtheg. Fe gymerai, meddai, rai dafnau o ddŵr ar ddechrau'r cyfnod hwnnw ond dim wedyn.

Cydnabu'r ficer nad oedd y farn feddygol yn derbyn bod y fath beth yn bosibl ond, meddai, 'roedd y cymdogion i gyd yn unfryd unfarn bod yr hyn a ddywedwyd yn wir, a dyna erbyn hynny oedd ei farn yntau hefyd. 'Roedd dweud hynny gan ŵr a dderbyniodd, mewn cymhariaeth â'r rhelyw o'i blwyfolion, ei siâr o addysg dda yn beth syfrdanol ynddo'i hun, ond ar ben hynny 'roedd Evan Jones yn ddigon sicr o'i bethau i orffen ei lythyr trwy herio meddygon i edrych i mewn i'r achos hynod. Fe estynnid, meddai, pob croeso gan dad y ferch i unrhyw berson parchus oedd am olrhain y sefyllfa.

Bu geiriau'r ficer fel mêl ar fysedd golygyddion papurau Llundain, oblegid ger eu bron wele was yr eglwys oedd yn credu mewn gwyrthiau ac oherwydd hynny yn barod i herio'r farn feddygol unionged. Nid oedd honiadau gwyrthiol, wrth gwrs, yn debyg o fod yn hollol ddiethr i'r ficer. Nid oedd ond ychydig dros ddeng flynedd wedi mynd

(Parhad ar dudalen 4)

ADGOFION

AM

Ddeugain Mlynedd o'm Gweinidogaeth

GAN

Y PARCH. EVAN JONES, B.D.

Periglor Trefdraeth, a Deon Gwladol Cemaes, Penfro.



Caerfyrddin:

ARGRAFFWYD GAN W. SPURRELL AT FAB
1894.

A

COMPLETE HISTORY

OF THE CASE OF THE

WELSH FASTING-GIRL

(SARAH JACOB)

WITH COMMENTS THEREON;

AND

OBSERVATIONS ON DEATH FROM STARVATION.

BY

ROBERT FOWLER, M.D. EDIN.

Vice-President and Honorary Librarian of the Hunterian Society; late Resident Medical Officer of the Loughborough Infirmary; late District Medical Officer (for seventeen years) of the East London Union; Author of the "Medical Vocabulary," "Medical Evidence House of Commons' Select Committee on Poor-Law Relief (England), 1861-62," Papers on Sanitary and Poor-Law Medical Matters published in *The Times* and Medical Journals, &c.

HENRY RENSCHAW,
356, STRAND, LONDON.

1871.